



PLINTHIAU PORT A STARBORD

Y TÎM A WNAETH Y GWAITH

HB

CLEIENT

Electroimpact

GWERTH

£865,000

YMGYNGHORWYR

MPS

MANYLION

Roedd AUK yn adeiladu cyfleuster adeiladu adenydd newydd ar y safle hwn ym Mrychdyn, ac roeddent angen plinthiau i hwyluso rhan o'r broses. Mae'r adenydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer yr awyrennau A350 XWB newydd. Mae'r broses o weithgynhyrchu adenydd yn digwydd mewn nifer o orsafoedd diffiniedig.

Yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu adenydd byddai 8 plinth concrit yn mesur rhwng 1.5 metr o led a 3 metr o led x 1 metr o drwch yn eistedd 4.5 metr o uchder ar 164 o golofnau concrit.

Roedd platiau gosodiad dur 300mm o led x 75mm o ddyfnder wedi eu gosod i mewn i'r plinthiau. Mae'r rhain yn gweithredu fel rheiliau peiriant ar y nenbont. Defnyddiwyd gwaith dur copin ymylol i ddiogelu'r rheiliau llaw sy'n rhai dur tiwbaidd y gallir eu datod.

Yn y gwaith adeiladu defnyddiwyd 848 m3 o goncrit, 245 tonnell o ddeunydd atgyfnerthu, 2958 m2 o estyllod a 67 tonnell o ddur gwasgedig.



Hollingsworth Bros (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y RHAGLEN

Ym mis Tachwedd 2010 cwblhawyd yr 8 plinth concrit **wythnos yn gynharach na'r dyddiad oedd wedi'i gynllunio**. Gostyngwyd amser y broses trwy ddefnyddio offer codi arbenigol oedd yn golygu y gallai'r tîm adeiladu'r plinthiau ar y port a'r starbord ar yr un pryd. Efen allweddol arall a gyflymodd y broses oedd adeiladu'r colofnau cyn y dyddiad cychwyn.

ARLOESI

Yr elfen allweddol ar gyfer gweithredu'r prosiect o fewn yr amser gofynnol oedd sicrhau bod y defnydd atgyfnerthu wedi'i adeiladu o flaen llaw oddi ar y safle. Wrth i'r dyddiad cychwyn ddynesu ym mis Mehefin heb fawr bosibilrwydd o allu adeiladu ar y safle o flaen llaw, penderfynodd HBL adeiladu'r colofnau yn ei iard yn Sandycroft sydd ond milltir o'r safle. Darparwyd y colofnau ar ein tryc gwastad a storiwyd y mathau perthnasol yno yn barod i'w gosod.

Defnyddiwyd craeniau City Cranes a llwythwr telesgopig 7 metr i godi'r system estyllod RASTO XXL i'w lle. Rhoddodd Hollingsworth Bros hyfforddiant arbenigol i'w weithiwr codi i ddefnyddio'r craeniau nenbont uwchben, a defnyddwyd y rhain i godi dur wedi'i atgyfnerthu a'r platiau gosodiad dur. Defnyddiwyd profion MPI i archwilio 10% o'r holl waith weldio.

Gweithredwyd mwy na 42 o brofion cryfder cywasgedig a rhoddodd bob un ganlyniadau uwch na'r safonau gofynnol.

BODDHAD Y CLEIENT

Meddai Ray Griffiths o Electroimpact
"Roedd darparu a gosod y cynnyrch o fewn yr amseriad cytunwyd arno ac am y pris y cytunwyd arno'n strategol ac yn hanfodol ar draws y sefydliad Electroimpact, gan gofio beth yw rôl allweddol y cynnyrch yn natblygiad a gwneuthuriad y rhaglen awyrennau A350 XWB.

"Roedd gwaith Hollingsworth Bros yn hollol esmwyth a darparwyd y canlyniadau gofynnol ymhob agwedd."